PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Ordinhad 6:

# Y Cyngor: Aelodau'r Senedd

| | |
|---|---|
| **Y Corff Cymeradwyo:** | Y Cyngor |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | 7 Gorffennaf 2023 |
| **Perchennog y Polisi:** | Ysgrifennydd y Brifysgol |
| **Swyddog Polisi:** | |
| **Statws y Polisi:** | Diwygiedig |
| **Fersiwn:** | 3.0 |
| **Dyddiad adolygu:** | Gorffennaf 2026 |

## Ordinhad 6:
## Y Cyngor: Aelodau'r Senedd

1. Yn unol ag Adran 9 y Siarter, bydd dau gynrychiolydd o'r Senedd ar y Cyngor.

2. Proses Apwyntio

    a. Pan fo sedd yng nghynrychiolaeth Aelod y Senedd ar fin dod yn wag, bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn hysbysu holl aelodau'r Senedd o hynny ac yn galw am enwebiadau.

    b. Bydd cynigydd ac eilydd yn llofnodi pob enwebiad a anfonir at Ysgrifennydd y Cyngor, a chyda phob enwebiad, anfonir datganiad gan yr ymgeisydd neu ar ei ran ef/ei rhan hi, ynglŷn â pharodrwydd i wasanaethu.

    c. Os ceir mwy nag un enwebiad, bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn trefnu cynnal pleidlais o blith pawb a wahoddwyd i gyflwyno enwebiadau, a bydd yr ymgeisydd sy'n derbyn y nifer uchaf o bleidleisiau yn llenwi'r sedd wag.

    d. Ni fydd unrhyw aelod o'r Bwrdd Gweithredol, fel y nodir yn Ordinhad 16, yn gymwys i'w enwebu/ei henwebu.

3. Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn cyhoeddi canlyniadau'r etholiad.

4. Ysgrifennydd y Cyngor fydd yn penderfynu ar ddull yr etholiad, ac eithrio'r hyn a ddarperir yma.

5. Os daw unrhyw sedd yn wag o dan amgylchiadau heblaw'r drefn reolaidd, llenwir hi trwy ddull tebyg i 2. uchod. Bydd y sawl a benodir i lenwi sedd a ddaw'n wag dros dro yn gwasanaethu am yr hyn sy'n weddill o'r cyfnod.

6. Y cyfnod arferol yn y swydd ar gyfer pob cynrychiolydd o'r fath fydd tair blynedd. Mae'r unigolyn yn gymwys i gael ei ailbenodi fel arfer am un cyfnod pellach o hyd at dair blynedd. Ni fydd unrhyw ailbenodi awtomatig a dilynir y broses a amlinellir yn Adran 2 uchod pe bai'r aelod presennol yn dymuno sefyll am ail dymor. Bydd unrhyw unigolyn sy'n llwyddo i gael ail dymor yn anghymwys i'w hailethol eto yn yr un categori aelodaeth nes bydd cyfnod o dair blynedd wedi mynd heibio.